



Date issued: Awst 2019

Nodyn Preifatrwydd Digwyddiadau CAD

Mae'r nodyn preifatrwydd hwn yn eich hysbysu sut mae Cyfnewidfa Arfer Da (CAD) Swyddfa Archwilio Cymru yn prosesu'r wybodaeth a gesglir amdanoch pan fyddwch yn cofrestru ac/neu'n mynychu digwyddiad CAD fel cynrychiolydd, hwylusydd neu gyfrannwr. Gall digwyddiadau gynnwys seminarau dysgu ar y cyd neu weminarau, yn ogystal â digwyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.

Pwy ydyn ni a beth ydyn ni'n ei wneud?

Mae rôl yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu'r staff a'r adnoddau angenrheidiol iddo allu cyflawni ei waith. Mae hyn yn cynnwys CAD sy'n ceisio cynorthwyo gwasanaethau cyhoeddus i wella gan rannu gwybodaeth ac arferion sy'n gweithio.

Y deddfau perthnasol

Rydym yn prosesu eich data personol yn unol â deddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys y Ddeddf Diogelu Data 2018 (DPA) a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae'r CAD yn prosesu eich data personol yn unol â darparu gwasanaethau o dan adran 19 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

Beth rydyn ni'n ei wneud â'ch gwybodaeth

Rydym yn casglu gwybodaeth oddi wrthoch chi er mwyn i ni allu cynllunio a rheoli ein digwyddiadau ac wedyn i hwyluso ac annog rhannu gwybodaeth ac arfer da ymysg mynychwyr a chyfranwyr.

Bydd gan dîm CAD, a lle bo hynny'n briodol, aelodau eraill o staff Swyddfa Archwilio Cymru fynediad at y wybodaeth rydych yn ei ddarparu. Efallai y byddwn yn rhannu peth gwybodaeth am fynychwyr gyda chyfranwyr a hwyluswyr cyn y digwyddiad i gynorthwyo gyda chynllunio'r digwyddiad a chynnwys y digwyddiad.

Wedi'r digwyddiad, efallai y byddwn yn rhannu rhestr o fynychwyr (gan gynnwys enw, rôl, sefydliad a chyfeiriad e-bost) i hwyluso rhannu gwybodaeth ac adnoddau. Efallai byddwn hefyd yn defnyddio'r rhestr hon i hwyluso gweithredu Treialon Coffi ar Hap lle mae unigolion yn gallu tanysgrifio i gadw mewn cysylltiad â mynychwyr eraill wedi'r digwyddiad. **Os nad ydych am gael eich cynnwys ar y rhestr hon, rhaid i chi ein hysbysu cyn diwedd y digwyddiad.**

Byddwn yn cadw eich data personol am y cyfnodau a amlinellir yn ein Polisi Rheoli Dogfennau a Chofnodion a byddwn yn dal eich data yn ddiogel yn unol â'n Polisi Diogelwch Gwybodaeth.

Cyflwyniadau, Ffotograffau, Recordiadau a Fideos

Rydym yn darlledu gweminarau byw i gynulleidfa ar-lein ac rydym yn recordio gweminarau ac wedyn yn cyhoeddi'r gweminarau ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru ac ar ein sianel YouTube. Gall siaradwyr mewn gweminarau hefyd rannu fideo'r weminar gyda'u sefydliad a'u cydweithwyr.

Yn ystod seminarau, efallai y byddwn yn tynnu lluniau a chynhyrchu clipiau fideo byr o bob cyflwynydd ar ddiwrnod y digwyddiad, gan sôn am brif bwyntiau'r cyflwyniad. Gall ffotograffau a fideos gael eu cyhoeddi ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru a rhennir y clipiau fideo ar sianel YouTube Swyddfa Archwilio Cymru. Byddwn hefyd yn rhannu cyflwyniadau ac adnoddau o'r digwyddiad gyda mynychwyr ac ar dudalen we CAD ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

Os ydych yn siarad neu'n cyflwyno mewn digwyddiad ond nad ydych am gael eich recordio, rhaid i chi ein hysbysu'n ysgrifenedig cyn y digwyddiad.

Mentimeter

Rydym yn defnyddio teclyn o'r enw Mentimeter fel rhan o'n digwyddiadau i gasglu a chyflwyno cwestiynau, barn ac adborth y gynulleidfa, ac i hwyluso trefnu'r Treialon Coffi ar Hap. Os ydych yn cymryd rhan, bydd eich cyfeiriad IP yn cael ei gadw gan Mentimeter am 30 diwrnod. Er bod y cwestiynau'n ddiennw, noder y gellir eich adnabod o'r cwestiwn ei hun neu yn y drafodaeth sy'n dilyn am y materion a godwyd. Os ydych yn rhoi eich cyfeiriad e-bost i Mentimeter i gael gweld y sylwadau neu'r cwestiynau a godir yn ystod y digwyddiad (neu i greu cyfrif) byddwch yn gwneud hynny yn unol â thermau ac amodau Mentimeter sydd ar gael ar wefan Mentimeter.

Eich hawliau

Yn unol â'r gyfraith ar ddiogelu data, mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth bersonol gyfredol a gedwir amdanoch ac i wrthwynebu prosesu data sy'n achosi niwed neu ofid direswm a sylweddol.

I weld copi o'r wybodaeth bersonol a gedwir gennym neu i drafod unrhyw wrthwynebiad neu bryder, ysgrifennwch at y Swyddog Gwybodaeth, Swyddfa Archwilio Cymru, 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 PLJ neu e-bostiwch infoofficer@audit.wales.

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os oes angen gwybodaeth ychwanegol arnoch am eich hawliau yn unol â'r gyfraith ar ddiogelu data, neu os hoffech gwyno am y modd yr ydym yn trin eich data personol, gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth: Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Sir Gaer, SK9 5AF, neu drwy e-bostio casework@ico.gsi.gov.uk neu drwy ffonio 01625 545745.